# Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol
# 11 Rhagfyr 2001

## Cynigion a gyflwynwyd ar 4 Rhagfyr 2001

**Dadl Plaid Leiafrifol**

**NDM886 Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Byddai'n well i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael Prif Weinidog amser llawn.

**NDM887 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

**NDM 888 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion a Ragnodir) (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Tachwedd 2001.

**NDM 889 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

**NDM 890 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygiad Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

**NDM 891 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

**NDM 892 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Tachwedd 2001.

**NDM 893 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

**NDM 894 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad yn arbennig at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau'r

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

**NDM 895 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi Adroddiad Ymgynghori Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, "Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus", y gellir ei ddarllen drwy glicio isod.

Yn nodi Adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, "Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus - Adroddiad Terfynol", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Rhagfyr 2001.

Saesneg
http://www.wales.gov.uk/keypubassemeplantrans/content/policy_review-e.pdf

Cymraeg
http://www.cymru.gov.uk/keypubassemeplantrans/content/policy_review-w.pdf

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 5 Rhagfyr 2001

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod:

**NDM886**

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn)**

Dileu popeth ar ôl "Gynulliad Cenedlaethol Cymru" ac ychwanegu:

pe bai perfformiad y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru fel gwrthbleidiau o'r un safon uchel â pherfformiad Llywodraeth Bartneriaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Llafur.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 6 Rhagfyr 2001

**NDM886**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Dileu ‘Byddai’n well i’, rhoi ‘Mae’ yn eu lle, dileu popeth ar ôl ‘Cymru’ ac ychwanegu’r pwyntiau newydd hyn:

1. yn llongyfarch y Prif Weinidog ar ei arweinyddiaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru;
2. yn cydnabod y cyfraniad enfawr y mae wedi’i wneud i sefydlu llywodraeth effeithiol yng Nghymru; a
3. yn edrych ymlaen at ei gyfraniad parhaus i ddatblygiad polisïau sydd wedi’u hanelu at ddiwallu anghenion pobl Cymru.